

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2018Rhif 437



tud 3	tud 7	tud 9	tud 12
Dysgwr y Mis	Tywydd Garw	Siapan	Ar y Dibyn

Brwydr y Llwybr



Mae cynghorau cymuned Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn yn cydweithio ar gynllun i sicrhau llwybr aml bwrpas rhwng Tal-y-bont a Thre'r Ddol.

Ers cau Ysgol Llangynfelyn mae nifer o blant yn teithio'n ddyddiol i'r ysgol yn Nhal-y-bont. Ym marn rhieni byddai'n braf gallu gwneud y siwrne ar droed ond nid yw hyn yn bosib oherwydd diffyg llwybr diogel.

Ar hyn o bryd mae'r palmant yn gorffen ger Maesyderi yn Nhal-y-bont ac yn ail gychwyn ger yr arhosfan bws yn Nhaliesin gan adael gofod o ryw filltir a hanner. Wrth gwrs mae 'na lwybr ar gael, yn cychwyn wrth Nant Llain Isaf ac yn ail gydio yn y ffordd fawr ar gyrion Taliesin. Fodd bynnag mae'r llwybr yn anaddas i blant dramwy ar ben eu hunain, yn arbennig yn y gaeaf ac fe fyddai yn rhaid dal i gerdded ar hyd darnau di-balmant.

Grŵp arall fyddai'n croesawu llwybr yw'r rhai sy'n mynd i fynwent Ceulanamaesmawr o'r ddau gyfeiriad – a dylid cofio nad oes hyd yn oed llwybr cerdded o Dal-y-bont i'r safle.

Yn eu hymgyrch mae'r cynghorwyr wedi troi at arbenigedd Eifion Jones un o drigolion Taliesin sy'n gweithio yn adran llwybrau y Cyngor Sir. Mae pawb yn cydnabod fod 'na anawsterau sylweddol –

ariannu'r cynllun, perchnogaeth tir a dewis yr union lwybr. Problem arall yw'r modd y mae'r tirwedd yn disgyn yn serth oddi ar y ffordd gerllaw Erglodd.

Yn ôl Cadeirydd Ceulanamaesmawr, Megan Mai, byddai cael llwybr yn adnodd ardderchog ac yn fodd o ddwyn cymunedau at ei gilydd. “Gyda chau un ysgol mae'n gwneud synnwyr i gael llwybr cerdded diogel ac mae 'na fanteision amlwg i drigolion tri phentref. Mae'r ffordd fawr yn droellog mewn mannau, y traffig yn trymhau a sbîd yn codi, yn arbennig wrth agosáu at Dal-y-bont. Hefyd mae'r ffordd yn rhoi golygfeydd hyfryd o'r arfordir a byddai llwybr yn cyfoethogi'r siawns o weld rhain ac yn ddolen ychwanegol i Lwybr yr Arfordir.”

Mae Michelle James, Cadeirydd Llangynfelyn yn cytuno. “Yn ogystal â bod yn hwylustod i rieni, mae gyda ni nawr Cletwr a dwi'n siŵr y byddai llawer yn hoffi cyfuno ymweliad â'r caffi a thaith gerdded. Ffaith arall yw nad oes maes chwarae gyda ni ac unwaith eto byddai'n hwylus gallu cerdded i'r parc yn Nhal-y-bont.”

Fel riant mae Eifion ar hyn o bryd yn gorfod cludo ei blant i'r ysgol yn y car. “Peth braf byddai gweld y plant yn cerdded ond mae'r ffordd llawer rhy beryglus. Ni'n cael ein hannog gan y Cynulliad i gadw'n iach a ffit ac mae cerdded yn ddull effeithiol o wneud. Ar y cyfan mae'r tirwedd yn wastad rhwng y pentrefi ac felly'n addas i'r hen a'r ifanc.”

Ym marn y Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn mae hon yn hen frwydr. “Dwi wedi bod yn cydweithio gyda'r Cynghorau Cymuned ers sawl blwyddyn ar y mater ac rwy'n falch i gefnogi'r ymdrech newydd hon. Mae'n hen bryd i'r Asiantaeth Ffyrdd ddechrau gwrandao ar farn trigolion gogledd Ceredigion.”

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cigydd

Porchell

01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

Penblwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'n gohebydd ym Mont-goch, Richard Huws, Pantgwyn, a fu'n dathlu penblwydd arbennig iawn ar 5 Mawrth.

Croeso

Croeso i'r byd ganol Chwefror i Lola Rae Morgan a llongyfarchiadau i'w rhieni Alice a Sannan, 3 Tan-y-coed, Tal-y-bont.

Eglwys St. Pedr Elerch

Anfonwn ein cofion cywiraf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i'n curad, Y Parchg. Lyn Lewis Dafis, sydd yn ysbyty Bronglais.

Ni fu'n bosib cynnal gwasanaeth y Cymun Bendigaidd ar Fawrth 4 oherwydd y tywydd garw.

Penblwydd arbennig

Pob dymuniad da i Non Griffiths, Fferm Ffwrnais, a ddathlodd benblwydd arbennig ddiwedd mis Chwefror.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Chris Forster Brown, Tremfor, Taliesin sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar a Richard Bailey, Nant Dyffryn, Taliesin, sy'n ymadfer ar ôl damwain.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Gwydion Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont ar ennill ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Ar y ffordd

Llongyfarchiadau i Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont ar basio ei phrawf gyrru.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gemma Dodd a Gavin Roberts 79 Maes y Deri, Tal-y-bont ar enedigaeth mab bychan, Oliver Llewelyn Roberts ar 27 Chwefror. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Penblwydd

Penblwydd Hapus i Jen Evans Neuadd Fawr, Tal-y-bont a ddathlodd benblwydd arbennig yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Mae Joe Wareing Braichgarw Tal-y-bont newydd ymddeol wedi 43 o flynyddoedd fel cigydd yn Llanbadarn. Yn y llun mae ei wraig Jill, ei ferch Helena a Kyra yn dymuno'n dda iddo. Llongyfarchiadau Joe ar dymor hir o wasanaeth a phob dymuniad da. (Llun: Arvid Parry Jones)

Cwis

Ar Chwefror 7 bu tîm o Fethel Tal-y-bont yn cymryd rhan yn y cwis blynyddol a drefnir gan Morlan lle mae timau o eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Aelodau'r tîm oedd Bleddyn Huws, Helen Jones, Gwyn Jenkins a Geraint Evans a daethant yn ail Llongyfarchiadau i bawb. Eleni eto Phil Davies oedd y cwis feistr meistrolgar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ffion Williams a Sion Southgate ar eni mab bychan, Owain Morgan Percy Southgate.

Croeso

Croeso cynnes i Vicky Ellis a'r plant, Steffan, Ellie a Benji Ellis-Evans sydd newydd symud i fyw i Maes Cletwr Tre'rddol.

Ysgol Penweddig

Eisteddfod Ysgol 2018

Cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol yr ysgol ar ddechrau mis Chwefror, ac fe gafodd un unigolyn ddiwrnod llwyddianus iawn. Aled Jones, Llys y Bryn, oedd capten llys Llewelyn, y llys buddugol. Cymerodd ran mewn amryw o gystadlaethau gyda chryn lwyddiant: Sgets, Meimio Càn Gymraeg a Brwydr y Bandiau (Gwobr 1af) Ffilm (2il wobwr) Stori a Sain a Deuawd Ddoniol (3ydd gwobr). Fe hefyd oedd yn arwain y Côr Merched a ddaeth yn 3ydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Oisín Lludd, Bontgoch, am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Stori a Sain gyda Gwion Hefin, i Alys Jones am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Unawd Offerynnol Hŷn, ac i Ffion Hicks am ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau hefyd i Glain Llwyd Davies, Llandre, am ddod yn ail yn yr Unawd Sioe Gerdd Agored ac hefyd am ennill Tlws Lledrith Llew. Da iawn chi.

Traws Gwlad

Llongyfarchiadau i Megan Glover am gystadlu yn ras merched Blwyddyn 8 a 9 ym Mharc Dinefwr Llandeilo ar y 13eg o Chwefror.

Dysgwr y Mis – Kath Edwards

Mae Kath yn dod o Bontypridd yn wreiddiol ac wedi byw yng Ngwlad Groeg a Leeds. Mae hi newydd symud i Taliesin o Dre'r Ddôl gyda'i phartner Ant a'i merch Alys. Mae'n dysgu Bioleg ym Mhenglais.

Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?

Dwi eisiau dysgu Cymraeg achos bod fy merch, Alys, yn mynd i Ysgol Talybont a dwi eisiau gallu siarad â hi yn Gymraeg.

Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg? Ynganiad a threfn geiriau!



Pam bod Cymraeg yn bwysig?

Dwi'n meddwl bod Cymraeg yn bwysig o ran parchu a chadw diwylliant a hunaniaeth. Mae amrywiaeth yn beth da!

Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?

Siarad â ni yn ddwyieithog, siaradwch yn araf!

Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?

Pili pala, llosgfynydd, byddwch yn ofalus Alys!

Beth ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?

Dwi'n mwynhau darllen llyfrau Cymraeg gydag Alys.

Rhestr termau

Ynganiad – *pronunciation*
Diwylliant – *culture*
Hunaniaeth – *identity*
Amrywiaeth – *diversity*
Dwyieithog – *bilingual*
Llosgfynydd – *volcano*

Ysgol Tal-y-bont

EIRA!

Wel am gyffro! Ddim yn aml mae'r plant yn gweld eira, ond yn ystod y mis cafwyd sawl cawod o eira yn Nhal-y-bont ac wrth gwrs, roedd hyn yn gyfle gwych i gael hwyl a chwarae gemau gwahanol ar yr iard. Tybed a ddaw mwy o eira yn ystod mis Mawrth?



YSGOL IACH

Sustrans Cymru

Mae'r cydweithio agos gyda Sustrans Cymru wedi parhau eto dros y mis diwethaf. Yn gyntaf daeth Sioned a Sara atom i ddangos i ni beth sy'n rhaid ei wneud cyn mynd ar bob siwrne, er enghraifft, gwneud yn siŵr fod cloch y beic yn gweithio, sicrhau bod digon a o aer yn y teiars ac wrth gwrs sicrhau bod y brêcs yn gweithio. Fe wnaethon nhw bwysleisio hefyd pa mor bwysig ydy hi i wisgo dillad addas a helmed galed ar gyfer pob taith. Mae ffyrdd yr ardal yn ofnadwy o brysur drwy'r adeg a'r cyngor clir oedd i bawb fod yn ofalus iawn ar y ffordd.



Wedyn daeth Jim neu Dr. Beics atom i drwsio ac adnewyddu ein beiciau. Bu'n gweithio'n ddiwyd drwy'r dydd ac er gwaethaf yr oerfel amcangyfrifwyd ei fod wedi gweld bron i hanner cant o feiciau a sgwteri erbyn diwedd y prynhawn.

HYBU DARLLEN



I gyd-fynd gyda dathliadau Diwrnod y Llyfr, aeth plant Blwyddyn 5 a 6 ar wibdaith i Ganolfan y Celfyddydau i weld perfformiad arbennig i hyrwyddo arferion darllen. Roedd y perfformiad yn un egniol a hwyliog ac roedd pawb wedi mwynhau.

STEDDFOD YR YSGOL

Cofiwch am Eisteddfod yr Ysgol fydd i'w chynnal yn y Neuadd Goffa ar ddydd Iau, Mawrth 29ain. Croeso cynnes i bawb.


Sbectrwm

Yn ystod y mis cafwyd ymweliad gan Vicky a'i ffrind arbennig Ted ar ran Asiantaeth Sbectrwm i'r ysgol. Mae Sbectrwm yn brosiect sydd ar waith mewn ysgolion cynradd ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth plant am gadw'n ddiogel ac am ofyn am gymorth os oedden nhw'n pryderu am rywbeth. Mi fydd yr ysgol yn parhau i gydweithio gyda Sbectrwm dros y misoedd nesaf.



GWAITH CELF

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cawsom dipyn o hwyl yn efelychu gwaith Ruth Jên yng Nghlwb yr Urdd ac yn y dosbarthiadau wedyn. Gobeithio y bydd hyn yn ysbrydoli'r plant i fod yn artistiaid yn y dyfodol.



Mae ymestyn y synhwyrâu'n rhan bwysig o ymestyn profiadau plant bach y Cylch Meithrin. Ac rydyn ni i gyd yn gwybod am bwysigrwydd trio pethau newydd o bryd i'w gilydd. Felly croesawyd y flwyddyn newydd gan blant a staff y Cylch gyda danteithion annisgwyl. Nid 2018, wrth gwrs, ond Blwyddyn y Ci!

Mae newidiadau ar droed yn y Cylch, gyda phawb yn barod i groesawu Ceri Morgan nôl i'r gwaith yn fuan wedi ei chyfnod mamolaeth. Ac yn yr un cyfnod, byddwn yn ffarwelio – am y tro – â Lynwen James, un o arweinyddion y Cylch, gyda hithau'n dechrau ar gyfnod mamolaeth cyn bo hir. Pob dymuniad da iddi hi a'r teulu bach.

Rydym yn falch iawn fod Anwen Curran wedi cytuno i ymuno â'r Cylch dros dro, hyd nes y gellir llenwi swydd Lynwen dros y tymor hirach. Os gwyddoch am unrhyw un fyddai â diddordeb yn y swydd, cysylltwch â Cath Lloyd-Williams ar 07985 716496 neu cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk.

Cafwyd newyddion da yn ystod y mis sef ein bod wedi derbyn grant gan Mudiad Meithrin. Caiff yr arian ei wario ar wresogydd newydd – a does dim dadlau dros bwysigrwydd rheiny ar ôl y cyfnod diweddar o dywydd garw – yn ogystal ag ar ddodrefn ar gyfer yr ardal un-i-un newydd.

Mae pawb yn mawr obeithio mai'r hyn fydd yn goglais y synhwyrâu yn ystod mis Mawrth fydd arogl y gwanwyn!

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Nos Lun 19eg o Chwefror daeth aelodau'r gangen ynghyd yn y Neuadd Goffa i fwynhau eu paned de a'u sgwrsio arferol. Rhiaian Bebb oedd y wraig wadd yn y cwmni a'r testun oedd 'Paned o De'. Aeth â ni ar daith i olrhain hanes y ddiod sy'n rhoi cysur i gynifer ohonom, a soniodd am y seremonïau sydd wedi datblygu o gwmpas gweini'r te. Y traddodiad o'i yfed o gwpan a soser, neu fel y gwna llawer ohonom erbyn hyn, y te tramp allan o fwg. Roedd wedi dod ag enghreifftiau o'i chasgliad o gwpanau a thebotau diddorol, llawer ohonynt yn codi gwên wrth feddwl am y te'n cael ei arllwys o'r tebotau addurnedig.

Medi James oedd yn cyflwyno Rhiaian a soniodd mor dalentog oedd hi yn chwarae'r delyn deires, ac yn diwtor Cymraeg, wedi gweithio llawer gyda'r dysgwyr. Hi yw cadeirydd presennol Cymdeithas Owain Glyndwr ym Machynlleth. Diolchwyd iddi am noson bleserus dros ben gan Enid Gruffudd.

James Memorials
Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**
Gofynnwch am barmffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

BETHEL TAL-Y-BONT
Tysteb i'r
Parchedig Richard Lewis
sy'n ymddeol ar ôl 17
mlynedd yn weinidog yn yr
ofalaeth.
Cyfraniadau i swyddogion yr
eglwys cyn diwedd
Mawrth 2018.
**Cynhelir oedfa anrhegu
fore Sul 15 Ebrill.**

y/Lolfa
Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5HE
Cyfle i weithio yng ngwasg fywiocaf Cymru!
Rheolwr/aig Swyddfa
yn eisiau i groesawu ymwelwyr a gwneud
gwaith gweinyddol amrywiol. Dyddiad cau
21 Mawrth. Manylion llawn gan Garmon
Gruffudd ar garmon@yloffa.com neu
ffoniwch 01970 832 304.
www.yloffa.com

Elin Jones - O'r Cynulliad

Dros y misoedd diwethaf, mae nifer fawr o etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r drafodaeth ar ail-strwythuro gwasanaethau iechyd o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar. Mae'r drafodaeth hon yn amlwg yn achos pryder i nifer, gan ein bod ni eisoes wedi ennill sawl dadl dros gadw Ysbyty Bronglais.

Er hynny, mae angen i ni barhau i ymgyrchu er mwyn galluogi mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd ar draws Ceredigion, ac mae'n hollbwysig i godi'r achos unwaith eto, i sicrhau bod Bronglais yn parhau fel ein prif ysbyty ni, ac i weddill canolbarth Cymru. Mae cadw ein hadran Achosion Brys 24 awr ynghyd â gwasanaethau llawdriniaeth hefyd yn allweddol.

Rwy'n parhau i bwysleisio gyda'r Gweinidog Iechyd a'r Bwrdd Iechyd mai datblygu gwasanaethau yn yr ysbyty sydd angen, nid eu torri. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau ei fwriad i gadw gwasanaethau ysbyty yn Bronglais, felly yn ne ardal Hywel Dda bydd y newidiadau posib.

Dros y misoedd diwethaf, rydw i wedi cynyddu'r pwysau unwaith eto ar Openreach i gwblhau'r gwaith Band Eang sydd heb ei gyflawni wedi i'r cytundeb rhwng y cwmni a Llywodraeth Cymru dod i ben ddiwedd y llynedd. Mae nifer o achosion wedi dod i'r amlwg lle mae ffibr yn barod ar bolion mewn pentrefi, gyda dim ond cysylltu â thai angen ei wneud.

Rydw i a Ben Lake AS wedi cynnal cymorthfeydd agored ar hyd y sir er mwyn trafod materion hyn gyda chymunedau ac etholwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys Ystad Meurig, Llanrhystyd, Llanarth a Llandysul. Yn fuan iawn, fe fydda i'n cwrdd ag Openreach er mwyn trafod yr achosion penodol hyn, ac yn ogystal byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru, Julie James, er mwyn sicrhau blaenoriaeth i Geredigion yn ystod y broses band eang nesaf.

Rydw i hefyd wrthi'n trefnu cyfarfod agored gyda'r Gweinidog yng Ngheredigion dros y misoedd nesaf. Byddaf yn hysbysu'r digwyddiad hwn yn nes at y dyddiad.

Unwaith eto, fe achosodd stormydd Rhagfyr 2017 ddifrod i arfordir Ceredigion. Mae gwella ein hamddiffynfeydd morol, nawr mwy nag erioed, yn fater o bwys i lawer yn ein trefi a'n pentrefi arfordirol ar hyd y sir yn ogystal â'r wlad gyfagos.

Ers y stormydd, rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i newid y ffordd yr ariennir gwelliannau i'n hamddiffynfeydd. Yn y gorffennol, fe ddaeth 100% o'r nawdd ar gyfer gwaith cynnal a chadw drwy Lywodraeth Cymru, ond erbyn hyn mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ddod o hyd i 25% o'r nawdd ar gyfer unrhyw waith.

Mae hyn yn achos pryder, oherwydd nid oes cyllidebau cyfalaf am filiynau o bunnoedd ar gael i awdurdod bach fel Ceredigion mwyach, felly mae'r ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor Sir ddod o hyd i 25% o'r nawdd cyfalaf yn rhwystr i weithredu yn sydyn a gyda golwg hirdymor. Petai'r llywodraeth yn caniatáu'r newid cyllid hwn, fe fyddai yna effaith sylweddol gyllido ein gwasanaethau lleol, a mwy o sicrwydd i lannau Ceredigion.

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235



Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



Mae'r gwanwyn yn arfer cyrraedd erbyn canol mis Mawrth, er y gallech daeru ein bod ni wedi cael tywydd mwyn hyd y Calan eleni. Mae'r cennin Pedr yn harddu'r ardal yn awr. Mae mwy o ddyddiau braf erbyn hyn ac mae 'na gyfle i wneud amryw o dasgau yn yr ardd. Rhaid paratoi gwelyau ar gyfer yr hadau, hau amryw o bethau, tocio llwyni a thacluso'n gyffredinol o gwmpas yr ardd.

Tasgau:

- 1. Gwarchod unrhyw dyfiant newydd rhag malwod a gwlithod.
- 2. Plannu nionod bach shallots, nionod sets a thatws cynnar.
- 3. Gallech blannu tatws yng nghornel y tŷ gwydr. Mi fyddan nhw'n barod ymhen rhyw 10-12 wythnos.
- 4. Plannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf.
- 5. Codi a hollti ambell glwstwr o flodau lluosflwydd [perennial].
- 6. Gosod compost newydd [trwch o rhyw ddwy fodfedd] yn y potiau fydd yn dal eich blodau.
- 7. Torri'r lawnt os oes angen – ar ddiwrnod sych.
- 8. Chwynnu! Gorau po gyntaf y cewch chi wared â nhw.


Amser i ddechrau plannu!

Er bod y dyddiau'n ymestyn a'r haul yn gryfach, mae'n well oedi ychydig nes bod llai o bosibilrwydd i ni gael rhew caled; ond dyma'r amser i ychwanegu maeth i'r pridd. Fforchiwch yr wyneb er mwyn i'r awyr dreiddio oddi tano. Gorffennwch docio'r rhosynau a phrysgwydd eraill, gan edrych am afiechyd neu ffwng. Tociwch rosmari yn ofalus – dydy o ddim yn tyfu allan o hen bren. Plannwch datws cynnar – arbrofwch drwy eu tyfu mewn bwced neu botyn mawr os nag oes gennych lawer o ardd. Gallwch blannu pannas, ffa a chennin hefyd. Mae teulu'r nionod, shalots a garleg yn wydn iawn. Plannwch nhw rŵan, yn agos i'r wyneb ond cadwch olwg arnyn nhw am fod adar yn gallu gwneud difrod. Mae nionod yn hoff o bridd mân. Peidiwch â rhoi gormod o wrtaith iddynt, neu fe gewch chi nionod meddal yn y pen draw h.y. ni fyddant yn cadw'n dda dros y gaeaf. (drwy garedigrwydd Llais Ardudwy)

Eisteddfod Calan Mai

Hwre – Rhaglen Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth wedi ei hargraffu ac wedi cael ei dosbarthu i'r siopau, Morlan, llyfrgelloedd, ysgolion, colegau ayyb. Gellir gweld y rhaglen hefyd ar wefan www.steddfota.org. Ar ddydd Mercher 2 Fai cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Morlan, i gychwyn am 4.30 o'r gloch. Hon fydd chweched pen-blwydd yr eisteddfod newydd anedig, ac i ddatlu hynny mae yna sawl cystadleuaeth newydd o fewn y rhaglen. Eisteddfod leol wrth gwrs yw'r eisteddfod hon, yn gyfyngedig i ddalgylch Ysgol Penweddig. Mae yn yr ardal ddwsinau o gantorion, llefarwyr, beirdd ayyb a gobaith y pwyllgor trefnu yw y byddant yn ymateb i'r sialens eleni eto drwy gymryd rhan yn yr Eisteddfod mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Wrth gwrs mae mwy i eisteddfod na chystadlu ar y llwyfan, beth am geisio yn yr adran gelf neu ffotograffiaeth? Neu beth am fynd am dani a chodi côr neu barti adrodd, paratoi sgets ayyb er mwyn cael amrywiaeth ar lwyfan 'Steddfod Morlan ar y dydd! Am fanylion llawn, codwch gopi o'r rhaglen yn y siopau lleol neu ewch i wefan www.steddfota.org. 17 Ebrill yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw waith cartref - felly digon o amser i'r awen alw heibio i gartrefi gogledd Ceredigion!

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH



Rowland Davies, Dolclettwr, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 13 Chwefror. Cawsom ganddo hanes diddorol ffermdy Dolclettwr gan nodi fod canol y tŷ yn dyddio'n ôl i 1290, a rhan arall ohono i 1680 sy'n ei wneud yn un o'r ffermdai hynaf ym mhlwyf Llangynfelyn. Daeth Capten Griffiths, sef hen-dadcu Rowland, i Ddolclettwr yn 1893, felly mae'r teulu wedi byw yno ers dros ganrif. Yn dilyn y tân a ddinistriodd hanner uchaf yr adeilad yn 1996 bu'n rhaid ei ailadeiladu, a thrwy gyfrwng sleidiau gwelwyd lluniau o'r tŷ cyn ac ar ôl y tân, a hefyd luniau o'r teulu. Mae'r tŷ gyda gorffennol hanesyddol pwysig gan fod aelodau o sawl teulu bonedd wedi byw yno dros y canrifoedd. Diolchwyd i Rowland am rannu'r holl wybodaeth ddiddorol am Ddolclettwr, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Mona Rowlands a Meinir Fleming.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocs a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDSODWYR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Yn ddiweddar sefydlwyd Clwb Ieuenctid yn Nhal-y-bont a dyma adroddiad gan Lowri Evans. Mae Clwb Ieuenctid Tal-y-bont wedi bod yn rhedeg ers chwe wythnos bellach, ac wedi croesawu 45 o bobl ifainc y fro trwy'r drysau yn y cyfnod yma, gyda 27-30 yn mynychu'n wythnosol. Mae'r Clwb yn cwrdd yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ac yn agored i bobl ifanc rhwng 10-16 oed. Rydym yn ffodus i gael defnyddio'r Neuadd a'i hadnoddau, ac rydym yn hynod o ffodus bod cymaint o bobl lleol brwdfrydig yn fodlon dod i helpu bob wythnos. Mae'r Clwb yn cynnig amrywiol weithgareddau megis pêl-droed, tenis bwrdd, pŵl, coginio a chrefftau. Y gobaith yw medru cynnig teithiau, gweithdai a gweithgareddau pellach yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi derbyn swm hael gan y Cambrian News ac rydym yn gwneud ceisiadau am gymorth pellach i fedru parhau i gynnig y ddarpariaeth yma yn rhad ac am ddim i bobl ifanc ein cymuned. Mae'r Clwb yn gwerthfawrogi'n fawr cymorth mewn unrhyw ffordd. Os ydych yn dymuno helpu, gwirfoddoli nawr ac yn y man, neu yn dymuno gwneud cyfraniad tuag at gynaliadwydd y Clwb, mae croeso i chi gysylltu drwy ebostio lowri_masonevans@hotmail.com neu ffonio 07730667126 neu dewch draw i'r Neuadd ar nos Wener rhwng 6.30 a 8.30 yr hwyr.


DIFROD Y TYWYDD GARW



Yr Afon Leri wedi rhewi




Ffordd lithrig yn Nhre'r ddôl



Coeden lawr yn Twll D*n Byd. Llundun: Gerwyn Evans



Ond tipyn o hwyl i Steffan a Cian !



Coed i lawr ar Allt y Crib



Llyn Loew, Bont-goch dan eira



Y difrod rhwng adeiladau Tanrallt.

Tra roedd trigolion pentref Tal-y-bont yn pryderu'n fawr ar ddydd Sul y dilyw sut oedd teulu Tanrallt, Tre Taliesin yn teimlo? Oherwydd llif a nerth dŵr y nant fach sy'n croesi dan y ffordd tu cefn i'r tŷ, daeth tunelli o gerrig lawr a chau ceg y beipen. Gorlifodd y nant, sy'n rhedeg o'r ffordd fawr tua'r Pwll Du, dros y ffordd gefn a lawr y llwybr rhwng y tŷ a'r tai allan. Erbyn hyn mae'r Cyngor Sir wedi bod wrthi'n tacluso a gosod gratyn dur i atal cerrig rhag cau ceg y beipen.

MAES Y GWAED



Gwyn Evans gyda'r 'dead man's pennies'.

Y tro hwn yn y gyfres achlysurol ar y Rhyfel Byd Cyntaf, cawn ychydig o hanes y 'Dead man's penny' sef y plac efydd crwn a gyflwynwyd i deuluoedd y sawl a laddwyd yn y rhyfel.

Mae gan Gwyn Evans, gynt o Dre'r ddôl ond sy nawr yn byw yn Aberystwyth, ddau blac a gafodd ar fenthg gan adeiladydd lleol a ddarganfu hwy mewn tŷ ym Mhenparcau. Nid oedd ef na Gwyn yn gwybod pwy oedd yn berchen y placiau hyn, dim ond yr enwau a oedd arnynt, sef Llewelyn Hughes a Trevor Jones. Eu gobaith oedd y gellid eu trosglwyddo yn ôl i'w hetifeddion petai modd eu darganfod.

Euthum ati i chwilota am fwy o fanylion a chael fy syfrdanu mewn un achos.

1. Llewelyn Hughes (1890-1917)

Roedd Llewelyn Hughes yn fab i John a Mary Hughes, Moel-y-don, Prospect St, Aberystwyth. Morwr ar longau masnach ydoedd ac yn ystod y rhyfel gweithredai fel prif gysylltydd radio. Yn 1915 ymosodwyd ar ei long filwyr y 'Mercian' gan long danfor ym Môr y Canoldir ond llwyddwyd i'w harbed a chludwyd y llong i borthladd *Oran*. Collodd 54 o ddynion eu bywydau yn yr ymosodiad ond fe oroesodd Llew Hughes.

Nid oedd mor ffodus ym mis Gorffennaf 1917. Suddwyd ei long yr 'S S Eloby' gan yr union un *U-boat* a ymosododd ar y 'Mercian', sef *U-boat* 38, dan gapteniaeth Max Valentiner. Boddwyd Llew Hughes a thua 155 arall a oedd ar fwrdd y llong. Mae'n debyg bod tua cant o filwyr Ffrengig ar y llong a oedd ar eu ffordd i *Salonica*.

Ceir enw Llewelyn Hughes ar y gofeb rhyfel yn Aberystwyth a'r un ar gyfer morwyr ar *Tower Hill*, Llundain. Cofnodir ei enw hefyd ar fedd y teulu ym mynwent Aberystwyth. Hyd yn hyn, methwyd â darganfod enwau aelodau o'i deulu a all fod yn byw yn lleol o hyd. Gwyddom i'w fam, Mary Hughes, farw yn 98 mlwydd oed yn 1947 a chladdwyd dau o'i frodyr, Richard D Hughes (1951) ac Edward J Hughes (1958), ym mynwent Aberystwyth.

2. Trevor Jones (1895-1917)

Ganed Trevor Jones yn Llanafan yn 1895, yn fab i Hugh a Charlotte Jones, fferm Wenallt. Ar ôl derbyn ei addysg yn

ysgol y sir, Aberystwyth, gweithiai fel prentis fferylllydd yn siop Taylor Lloyd, Aberystwyth. Yna yn 1915 ymunodd â'r *Royal Army Medical Corps* a theithio gydag Adran Gymreig (adran 53) y fyddin i ddwyrain Môr y Canoldir. Bu ar draethau gwaedlyd *Gallipoli* yn y flwyddyn honno cyn i'r fyddin gilio oddi yno wedi colledion trwm yn erbyn byddin Twrci. Am gyfnod, roedd Trevor Jones yn gwasanaethu yn ardal camlas *Suez* ond yng ngwanwyn 1917 ymosododd byddin Prydain ar *Gaza* ym Mhalestina. Collodd cannoedd o Gymry eu bywydau yn y frwydr ac anafwyd Trevor Jones yn ddifrifol gan ffrwydryn a laniodd yn agos iddo. Cludwyd ef i ysbyty yng Nghairo ond bu farw o'i glwyfau ar 13 Mai 1917 a'i gladdu yn y ddinas honno. Cofnodir ei enw ar y gofeb yn Llanafan.

Er syndod mawr i mi, wrth chwilio am hanes teulu Trevor Jones, sylweddolais fod ei fam-gu Kitty Jones (née Phillips) yn chwaer i'm hen hen dad-cu, Thomas Phillips. Serch hynny, mae siŵr bod perthnasau agosach na minnau yn parhau i fyw yn ardal Llanafan a byddwn yn holi ymhellach yno.

GJ



ORDEINIO



Mair yn y canol, gyda'r Esgob a swyddogion yr Ordeinio.

Yr oedd noson 27ain Ionawr yn noson arbennig a phwysig i'r Parchedig Mair Owen, Cwmffrwd ger Caerfyrddin, pan ordeiniwyd hi fel Offeiriad a Gofal Eglwysi Llandybie, Llandyfan a Chwm Coch. Mae Mair yn ferch i Mrs. Cassie Owen, a'r diweddar Mr Ifor Owen. Treuliodd Mair ei blynnyddoedd cynnar yn Nhal-y-bont gan fod ei thad ar yr adeg hynny yn blismon yma, a'r teulu yn byw yn yr Orsaf Heddlu.

Cynhaliwyd yr addoliad arbennig yma yn Eglwys Llandybie, gyda'r Esgob Joanna Penberthy, Esgob Tŷ Ddewi yng ngofal y gwasanaeth. Yn naturiol mae'r teulu oll yn falch iawn o Mair a'i phenderfyniad i wasanaethu Eglwys Crist.

Danfônwn ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchiadau gorau i Mair yn y dyfodol.

TAITH I SIAPAN

Ar y 15fed o Chwefror, teithiais i, Siôn Nemes, Gwenallt Llwyd Ifan a 5 arall am 30 awr yr holl ffordd i *Yosano* ar arfordir gorllewinol Siapan a thaith dwy awr o *Kyoto*. Dyma ble cafodd Frank Evans ei gadw fel carcharor rhyfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu'n byw yn Nhal-y-bont am gyfnod, a gadawodd ei arian i ffurfio Cymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth-Yosano, i ariannu teithiau cyfnewid rhwng plant y ddwy ardal.



Ymweld ag *Amanohashidate*

Yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf, cafodd pob disgybl gyfle i gwrdd a threulio amser â'r teuluoedd a fyddai'n gofalu amdanon ni yn ystod y daith.

Cefais fy nghroesawu gan deulu o 5 – rhieni a 3 o blant, Airi, 22, Kaichi, 21 a Runa, 17. Mae Runa yn gobeithio cael ei dewis i ddod ar y daith cyfnewid nesaf i Aberystwyth. Treuliom y diwrnod cyntaf yn *Amanohashidate*, un o 3 o olygfeydd mwyaf godidog y wlad. Buom yn lwcus iawn i fedru gweld y môr prydfarth cyn iddi fwrw eira'n drwm am weddill y diwrnod.

Ar y 18fed, teithiais gyda'r teulu i'r ddinas gyfagos, *Kyoto*. Aethom i weld y temlau Bwdhaidd, palasau a chysegrfeydd *Shinto*. Fy hoff gysegrfa oedd *Fushimi Inari Taisha*, sef atyniad twristiaid mwyaf poblogaidd y wlad. Prif gysegrfa y duw *Inari* ydyw, ac mae'n cynnwys nifer o *torii* (llidiart arbennig sy'n nodi'r marc rhwng y tir cyffredin a'r tir sanctaidd) sy'n arwain at sawl cysegrfa arall ar fynydd *Inari*. Ar ôl dychwelyd i *Yosano*, aethom allan am swper mewn *Kaitenzushi* – bwyty gyda 'conveyor belts' sushi – profiad gwahanol iawn!

Y diwrnod canlynol, ymwelais â theml Fwdhaidd, a dysgais sut i fyfyrio *zen* gyda meistr *zen*. Yna, ymwelais â chofeb Frank Evans. Doeddwn ddim yn disgwyl gweld cofeb mawr arian iddo, wrth ymyl coeden o Gymru. Cawsom glywed mwy o'i hanes gan Itoi, llywydd Cymdeithas Cyfeillgarwch Yosano-Aberystwyth yn Siapan.

Ar ddiwedd y dydd, aeth pawb i barti derbyniad, ble cwrddom â'r disgyblion a ddaeth draw i Aberystwyth yn Hydref 2016. Roedd yn hyfryd gweld pawb eto, a chwrdd â'u teuluoedd.

Ymwelais â nifer o ysgolion hefyd, gan gynnwys *Kindergarten-Kaede Kodomen*, ysgol feithrin i blant 10 mis oed i 6 oed, Ysgol Gynradd *Yamada* ac Ysgol Uwchradd *Kayadani*. Cefais fy nghyfweld yn yr ysgol uwchradd, a chefais fy synnu wrth i



Y 6 disgybl a ddaeth i Aberystwyth yn 2016 gyda'r 6 ohonom ddieithriad fy adnabod y diwrnod canlynol, gan i'r cyfweiliad a llun ohonof i a'r disgyblion cael eu cyhoeddi mewn papur newydd! Teithiais i *Hiroshima* ar ddiwrnod olaf y daith, i weld adfeilion Cromen *Genbaku* ym Mharc Coffa Heddwch *Hiroshima*. Roedd yn brofiad bythgofiadwy, ac roedd y wybodaeth o'r amgueddfa yn addysgiadol iawn.



Cromen *Genbaku*

Rwy'n hynod o ddiolchgar i Gymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth-Yosano am y cyfle unwaith-mewn-oes hwn, ac ar ôl bod ar y daith, mae'n amlwg i mi fod nod Frank Evans o adeiladu pontydd rhwng y 2 ardal a chynnal heddwch wedi cael ei chyflawni, gyda dros 200 yn aelodau o'r Gymdeithas yn *Yosano*. Hoffwn ddiolch i fy nheulu, ffrindiau a thrigolion ardal Papur Pawb am gefnogi ein gweithgareddau codi arian dros y misoedd diwethaf er mwyn ein galluogi i fynd ar y daith anhygoel yma.

Betsan Siencyn



Cofeb Frank Evans

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

HWYL Y PANTO!

Croeso nawr i'r panto. Chi'n barod am adroddiad Papur Pawb?!



Wel mae'r panto yn ffefryn gan bawb, boed yn ei berfformio, cynhyrchu neu'n ei wyllo. Cymeriadau hoffus, arwrol, gwirion, lliwgar ac un neu ddau ddrwg yn y canol. Y gwisgoedd amryliw, colur sgleiniog a llawn theatr o chwerthin iach. Yn wir mae gan y panto bob peth ar gyfer y bobl!



Ar ôl llwyddiant y clwb yng nghystadleuaeth adloniant y sir a Chymru y llynedd, roedd yna bwysau arnom i efelychu'r uchelfannau a brofwyd gyda 'Cynulleidfa gyda 2'. Penderfynwyd ailgylchu panto oedd yn ddeuddeg mlwydd oed 'Dafydd ap Gwilym a'r Busnes Cariad 'ma' a ddaeth yn ail yng Nghymru pan gafwyd ei berfformio yn Aberdyfi flynnyddoedd yn ôl. Roedd yr aelodau hŷn wedi gweld cylch cyfan, y panto cyntaf iddyn nhw gystadlu gydag a hefyd yr olaf i rai, 'Dafydd ap Gwilym ap Potel ap Gwrach'.



Mae'n hen hanes bod 'rhen Dafydd ap Gwilym yn hoff o'i ferched, ond doedd e methu cael gwir gariad felly'r unig ateb oedd gofyn i WRACH CORS FOCHNO i'w helpu gyda'i ffyrdd arallfydol a swynion di-ri. Wel saff oedd dweud bod y wrach wedi tyfu tipyn mewn 12 mlynedd gyda Richard John Jenkins, Ynysgreigiog, yn blodeuo'n ei rôl ddieffig a llwyddo i gipio'r ail actor gorau dan 26 yn y gystadleuaeth. Yn anffodus doedd y wrach ddim wir eisiau ei helpu, roedd hi eisiau cymar ei hunan, ond beth ddigwyddodd i Dafydd ar ôl iddo ei gwrthod? Gwrthod GWRACH CORS FOCHNO?? Dyn Dewr neu ddyn dwl? Dewch i weld sut mae'r stori'n gorffen, dewch i weld y criw yn perfformio'r panto yn Neuadd Tal-y-bont ar Nos Fawrth y 13eg o Fawrth am 7 o'r gloch. Rhaid diolch i'r tîm cynhyrchu am ei holl waith diflino; Elen

Pencwm, Catrin Mai, Mair Nutting a Sion Pennant, hebddyn nhw byddai'r holl gyfleoedd a phrofiadau mae'r aelodau yn eu cael ddim yn bosib. Mae'r aelodau i gyd yn lwcus iawn o gael tîm mor arbennig!



Llwyddodd y panto i gael 3 gwobr:
Ail panto gorau yng Ngheredigion
Ail am y sgript gorau
Ac Ail i Elen Pencwm am y cynhyrchydd gorau
Joiodd pob un ohonom mas draw wrth ymarfer a chystadlu gyda'r panto, ond ymlaen â ni nesaf ar dramp o gwmpas y sir, i berfformio gyda chlybiau eraill.

SESIWN NOS WENER

Cludwyd y gynulleidfa ar daith gerddorol o gwmpas Cymru gan Arfon Gwilym a Sioned Webb, artistiaid Chwefror yn Sesiwn Nos Wener.



Ar y daith cyflwynwyd canu penillion, canu gwerin a limrigau, llais Arfon yn dangos gymaint meistr yw ar y grefft a Sioned yn cyfeilio ar y delyn. Maent yn eithriadol o brysur, newydd orffen teithio ledled y canolbarth a'r gogledd mewn cyfres o blygeiniau, cyn symud ymlaen i berfformio mewn nosweithiau Gŵyl Ddewi. Yn ystod y llynedd bu'r ddau yn canu mewn gŵyl werin yn Lorient, Llydaw ac mewn gŵyl gerddoriaeth ryngwladol yn *Uzbekistan*. Roedd yr olaf yn brofiad neilltuol – canu ar lwyfan enfawr yn *Samarkand* y brif ddinas. Gwlad yng nghanol Asia yw *Uzbekistan*, cyn dalaith Sofietaidd ac mae *Samarkand* ar yr enwog *Silk Road* y llwybr masnach enwog rhwng China a Môr y Canoldir. Agoriad llygaid yn arbennig o ystyried y ffaith fod ganddynt '*minders*' drwy gydol yr ymweliad! Wel, nid oedd angen gwarchodwyr yn Nhal-y-bont, rhoddwyd croeso cynnes a sawl encôr i'r ddau ac ar derfyn y noson cawsom wers ar ganu Calon Lân ar gerdd dant. Digon da ond gwell gadael y grefft i'r meistri!

CLETWR



Louise Halestrap, Jon Bell a Fran Disbury yn helpu yn y gegin yn ystod yr eira.

Wel, am fis! Er gwaetha'r tywydd garw oll – llifogydd a wnaeth bron â chyrraedd drws y cefn, eira a gwyntoedd tymhestlog didor, mae'r adeilad (a'r staff a gwirfoddolwyr) dal ar eu traed! Diolch o galon i'r gwirfoddolwyr a ddaeth i mewn i gadw'r caffi ar agor, ac yn gweini cawl, coffi a brechdanau bacwn poeth i bawb yn ystod yr eira a'r tymheredd chwerw ar ôl Dygwyl Ddewi.

Mae'r siop a chaffi yn dal i ddenu cwsmeriaid hen a newydd, ac mae'n braf gweld cynifer o wynebau cyfarwydd yn y caffi. Er bod Cletwr yn dal i fod yn boblogaidd gyda theithwyr, siop a chaffi i'r gymuned yw e yn y bôn. Mae'r tîm 'digwyddiadau' yn parhau i drefnu llwyth o bethau, gan gynnwys rhywbeth at dant bawb (gobeithio) – sgysiau gyda'r nos, teithiau tywys, rhywbeth i'r plant - mae'r sesiynau 'Amser Stori' yn ail-gychwyn y mis 'ma – ac mae'r grwpiau Cerdded a Chlonc, Clonc a gweu, a rhedeg cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd bob wythnos.

Er bod rhywbeth ar gyfer ein cymuned ni yw Cletwr, rydyn ni wedi gweld pa effeithiau y mae busnes cymdeithasol yn gallu cael mewn cymuned. Mae'n dod â phobl ynghyd, ac yn helpu creu cymuned. Fel canlyniad, mae'r bobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yng Nghletwr yn awyddus iawn i helpu cymunedau eraill gweld y posibiladau o siop, neu gaffi neu dafarn cymunedol. Rydyn ni'n hapus i esbonio pethau i unrhyw un sy'n dod i mewn, ond weithiau rydyn ni'n mynd i weld grwpiau eraill – yng nghanol y mis aeth Nigel Callaghan i Faesfyed (*New Radnor*) i drafod cynlluniau grŵp o bobl leol i brynu tafarn a'i ail-agor fel canolfan cymunedol. Rydyn ni'n disgwyl ymweliad gan grŵp cymunedol o Ffestiniog yn y dyfodol agos, a rydym yn trefnu 'Diwrnod Agored' ar y cyd â'r *Plunkett Foundation* ym mis Ebrill, pryd fydd grwpiau yn gallu dod i weld beth mae Cletwr wedi ei gwneud, a sut.

Bydd y mis nesaf yn un brysur iawn, heb os – hyd yn oed os bydd y tywydd yn braf. Mae'r Pasg yn dod, ac mae wyau (a bynsen y Grog) ar y sillfoedd, gan gynnwys wyau siocled di-glwten hefyd! Mae sawl sgwrs ar yr amserlen, gan gynnwys un gan Gyngor ar Bopeth (y CAB) ar "Cyflwyno Credyd Cynhwysol" ac "Arbedion ar Ynni yn y Cartref" – cyflwyniad i'r rheolau newydd a chyngor ar arbed arian yn y cartref – ar 20fed o Fawrth. Manylion llawn y rhaglen ar ein tudalen *Facebook*, neu dilynwch ni ar Drydar.

Diolch eto i'r staff a'r gwirfoddolwyr i gyd sy'n cyfrannu bob dydd at lwyddiant ein busnes arbennig bach ni – os ydych chi am wirfoddoli, mae lle i bawb. Dewch i mewn am ddishgled ac i ddysgu mwy.

Y Gair Olaf



A ninnau newydd fynd drwy gyfnod gaeafol iawn, mae'n hawdd anghofio weithiau mai cynhesu – a chynhesu ar raddfa ddigryffelyb, ers canol yr 20fed ganrif – y mae ein byd. Er mai hwn yw'r pwnc mwyaf dylanwadol i effeithio'r hil ddynol ers i ni ddechrau cerdded y ddaear, ychydig iawn o sylw mae'n ei dderbyn yn gyffredinol. Gyda'r agwedd hunanol gyfoes mae gwleidyddion megis Trump yn America a'r *Brexiteers* yma ym Mhrydain yn ei harddangos, efallai nad ydi hyn yn syndod. Ond, ychydig iawn o sylw mewn gwirionedd mae'r broblem yn ei derbyn gan wledydd eraill ar hyd a lled y glôb hefyd.

Efallai nad newid hinsawdd sy'n gyfrifol am bob cyfnod o dywydd gwael rydyn ni'n ei gael, ond mae tystiolaeth ar gael erbyn hyn sy'n dangos y bydd cyfnodau o dywydd eithafol yn llawer mwy cyffredin fel cwyd tymheredd cyfartalog y ddaear, a'r tebygolrwydd yw ein bod wedi dechrau dioddef o'r rhain eisoes. Gwaethygu gwnaiff pethau yn anffodus.

Diau – rhyw ddydd – na fydd modd amsugno'r nwyon sy'n gyfrifol allan o'r atmosffer, ond mae'r dechnoleg yna allan o'n gafael ar hyn o bryd. Felly – yn y cyfamser – y cyfan fedrwn ni wneud yw ceisio lleihau faint o garbon gaiff ei ollwng i'r amgylchedd.

Mae lle i bawb wneud hyn – o leihau allbwn methan drwy waredu gwastraff yn fwy gofalus, i adeiladu'r lagŵn llanw yna ym mae Abertawe, a llawer mwy ohonynt hefyd (yn hytrach na gwario ar bwerdai niwclear newydd sy'n mynd i gymryd llawer gormod o amser i'w hadeiladu). Ac mae gen i ofn y bydd angen pob melin wynt a phanel solar yn y cyfamser hefyd, nes bydd ateb gwell wedi'i ganfod.

Siôn Pennant



Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



RALIWR ADDAWOL



llun: Joseph John Gilbertson

Rydym wedi arfer clywed am gampau raliö Elfyn Evans, Dolgellau, ond mae gan Dal-y-bont raliwr addawol hefyd. Mae Einion Williams, Pen-rhos, Cwm Slaid, wedi cael llwyddiant gyda'i bartner Darren Ikin y tu ôl i olwyn ei Ford Escort RS2000 yn ystod yr wythnosau diwethaf gan ddod yn ail yn Rali Machynlleth. Yna yn rali Cors Caron ddiwedd y mis daeth yn gyntaf yn y dosbarth arbenigol ac yn bumed yn y rali yn gyfangwbl. Llongyfarchiadau i Einion ac edrychwn ymlaen at ei weld ar bodiwm cystadlaethau rhyngwladol yn y dyfodol.

CIAN AR Y DIBYN

Mae'n siŵr i lawer ohonoch ddilyn hynt Cian Llywelyn, Is y Coed, Tal-y-bont yn y gyfres Ar Y Dibyn ar S4C. Roedd 'na ddeg anturiaethwr yn brwydro yn erbyn ei gilydd er mwyn ennill pecyn antur gwerth £10,000 gyda'r deg yn byw yn y awyr agored ac yn cymryd rhan mewn campau gwahanol megis mynydda, dringo, canŵio a nofio. Ar derfyn cystadlu brwd llwyddodd Cian i ddod yn ail a llongyfarchiadau mawr iddo ar ei berfformiad. Bu Papur Pawb yn ei holi am y profiad.



Pam wnest ti benderfynu cymryd rhan ac a oedd yna dreialon?
Penderfynes i gymryd rhan ar ôl gweld y gyfres flaenorol. Roedd y sialensau yn edrych yn heriol, ac yn hwyl. Roeddwn i eisiau gwthio fy hun a threchu rhai o fy ofnau. Wrth gwrs roedd cael cyfle i ennill gwobr mor wych hefyd yn ffactor! Doedd dim treialon, ond roedd yna ffurflen gais a chyfweiliad yn holi am fy mhrofiad awyr agored a fy ffitrwydd cyn i fi gael fy newis fel un o'r cystadleuwyr.

Beth am baratoi?

Os dw i'n onest, nes i ddim paratoi yn dda iawn. Doeddwn i ddim yn meddwl bod llawer o siawns gyda fi i ennill, felly roeddwn i wedi canolbwyntio mwy ar hyfforddi ar gyfer rygbi nag ar hyfforddi ar gyfer y gyfres. Roeddwn i'n reit ffit, ond roedd yna elfennau pwysig o ffitrwydd a chryfder oeddwn i wedi esgeuluso. Fe wnes i ymchwilio pethau fel nofio, technegau caiacio a chanŵio, ac fe wnaeth hynny helpu fi i raddau.

CANOLFAN
M.O.T.

HUW
LEWIS

M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS
HUW
LEWIS

TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Beth oedd y gamp orau?

Y gamp orau i fi oedd sialens gyntaf y rownd derfynol – naid 10 metr mewn i ddŵr rhewllyd chwarel, wedyn dringo rhaff 'nôl mas o'r chwarel. Roedd yr holl beth yn her seicolegol enfawr, gorfodi fy hunan i feistrolu fy ofn a neidio yn y lle cyntaf, gwthio fy hunan i anwybyddu'r poen a'r blinder llethol, a chyrraedd pen y rhaff – hyd yn oed ar ôl cael fy ollwng i'r dŵr ar ôl dringo hanner y rhaff. Dysgais fwy am fy hunan, fy ffiniau personol a'm gallu i'w gwthio nhw yn ystod y sialens honno nag unrhyw bryd arall yn fy mywyd. Er roedd e ymysg y pethau mwyaf anodd i fi wneud erioed, roedd y teimlad ar ôl llwyddo yn agos at fod yn amhrisiadwy.

A'r gwaethaf ?

Wnes i fwynhau pob un tasg, heblaw am yr 'inverse zipline', sef y sialens eithriadol o gorfforol wnaethon ni ar ddiwedd cyfnod o ddau diwrnod a hanner gyda bron dim bwyd a dŵr! Gorfod tynnu fy hunan lan rhaff allan o ddŵr oer i ben rhacadr mewn ras i gasglu baneri o'r top. Byddai hynny wedi bod yn her enfawr hyd yn oed ar ôl digon o fwyd, dŵr a chwsg, ond yn y stad oeddwn i ynddo fe, roedd yn teimlo'n amhosib. Ar ôl y sialens, roedd yn rhaid i fi gael fy achub, oherwydd prinder egni a methu dal fy mhen allan o'r dŵr. Dyma'r unig sialens na fyddwn i'n dewis gwneud eto.

A beth am yr holl brofiad?

Cafodd y gyfres ei ffilmio dros cyfnod o bythefnos. Roeddem fel cystadleuwyr yn byw mewn pebyll ar lethrau'r Wyddfa, prydau prin, nant ar gyfer dŵr, a rhaw ar gyfer mynd i'r tŷ bach. Dwi wrth fy modd mewn sefyllfaoedd fel hyn, ond byddai mwy o fwyd, a phaned o de pob hyn a hyn wedi bod yn neis! Roeddwn i'n lwcus iawn i gael cymryd rhan ac roedd yn wych cael profi fy hunan yn erbyn pobl eithriadol o ffit a chryf. Ar ben hynny, roedd pob un o fy nghyd gystadleuwyr yn bobl hyfryd a wnes i ffrindiau am oes. Wnaethon ni gwrdd i wyllo pennod y rownd derfynol dros bryd o fwyd a pheint. Roedd yr holl beth yn fraint a phleser.

Roeddech i gyd yn haeddu'r peint! Llongyfarchiadau eto Cian, tra'n rhyfeddu at dy nerth a gallu.

